EISTEDDFOD TRALLONG 2023

Cynhaliwyd Eisteddfod Trallong 2023 ar benwythnos cyntaf mis Tachwedd, yn Neuadd Maescar, Pontsenni a bu'n llwyddiant ysgubol eleni eto. Brwydrodd naw unawdydd rhagorol yng nghystadleuaeth yr Her Unawd – yr enillydd yn y pen draw oedd Barry Powell o Lanfihangel Y Creuddyn, cystadleuydd newydd ar y llwyfan arbennig hwn. Dyfarnwyd yr ail wobr i Robert Jenkins o Lanfihangel yr Arth, cystadleuydd newydd arall. Enillwyd yr Unawd i Ddynion gan Gwyn Morris o Aberteifi, yntau hefyd yn gystadleuydd newydd yn Eisteddfod Trallong. Braf oedd gweld cystadleuwyr cyson fel Jennifer Drew Parry, Efan Williams, Sophie Davies, Ann Watkins, David Maybury, Maria Evans, Dyfed Watkins, Angharad Jones, Gerwyn Rhys, Emyr Evans, Marc Williams a Sian Norgate ymhlith enillwyr y noson.
Roeddem yn falch iawn bod Côr Meibion Aberhonddu wedi gallu ymuno â ni, gan eu bod wedi cael diwrnod prysur yn perfformio ym mhriodas ein Haelod Seneddol yn gynharach yn y dydd.

Yn adran y plant, enillydd tlws Mrs Mary Price am y cystadleuydd oedd yn dangos y mwyaf o botensial yn yr adrannau lleol, oedd Carys Lewis, Llwyntew, yn cystadlu am y tro cyntaf – da iawn Carys.
Enillwyd Cadair Her Barhaol Alec Tompkins ar gyfer y cystadleuydd sy'n dangos y potensial mwyaf yn yr adrannau agored, gan Elan Mabbutt o Aberystwyth, sydd wedi bod yn gystadleuydd cyson ers nifer o flynyddoedd, ac Ed Edwards o Landrindod oedd enillydd Tarian Barhaol Mrs. Margaret Rees ar gyfer yr unawd offerynnol 12 oed ac iau.

Ein beirniaid oedd Mr Alistair O'Mahoney o Gastell Nedd (cerddoriaeth) a Miss Ruth Lloyd o Lanilltyd Fawr, yn wreiddiol o Lanwrtyd, a fu'n beirniadu'r adrannau llefaru llwyfan, yn ogystal â'r adrannau llenyddiaeth hŷn. Cafwyd cefnogaeth dda iawn yn yr adrannau yma, a dywedodd y beirniad ei bod wedi cymryd dau ddiwrnod cyfan iddi ddarllen y cynigion.
Beirniadwyd y dosbarthiadau Celf a Llenyddiaeth Plant gan Mrs. Tracey Havard o Ddefynnog, a chafwyd nifer o awgrymiadau calonogol ac adeiladol ganddi ar gyfer cystadlaethau'r dyfodol.
Llywyddion y dydd oedd Mrs. Elin Mabbutt o Aberystwyth a Mr. Gareth Wyn Thomas, Capel Hendre.
Cafwyd anerchiadau diddorol gan y ddau gyda llawer i gnoi cil arno. Ein cyfeilyddion talentog iawn eleni oedd Mrs Bethan Thomas, Crossgates a Miss Rhiannon Pritchard, Caerdydd. Hwn oedd ymweliad cyntaf Rhiannon ag Eisteddfod Trallong, a chyflwynwyd nifer fawr o gopïau heriol iddi ar yr olwg gyntaf.
Yr arweinyddion oedd Mrs Elaine Pye, Trallong, Mrs Mary Hodges, Caerdydd, Mrs. Bethan Price, Defynnog, Mr. Marc Williams, Pontsenni a Mr. Dyfed Watkins, Trecastell – gwnaethant oll waith gwych yn cadw'r cystadlu i lifo'n hwylus.
Enillwyd yr Her Unawd 18 i 30, a Chwpan Parhaol a roddwyd gan deulu'r diweddar Mrs. Hyral Thomas er cof amdani, gan Sophie Davies, Aberbran.
Ymhlith enillwyr gwobrau eraill yr eitemau llwyfan i blant oedd Lowri a Ffion Astington (Llanfihangel-Nant-Bran), Jake a Ryan Morgan (Heol Senni), Evie Lewis (Llwyntew) ac Ioan Mabbutt (Aberystwyth).
Yn adrannau Celf a Llenyddiaeth y plant dyma rai o'r enwau ddaeth i'r brig: Ffion & Lowri Astington, Ffion Thomas (Llandrindod), ac Eva May, Betsan, Neila, Lexi, Molly, A.L., Jasper, E.V.M, Emily, Mair a Holly holl ddisgyblion Ysgol y Mynydd Du yn Nhalgarth.
Yn yr adran Llenyddiaeth Hŷn roedd John Edwards (Aberbran), Jayne Evans (Capel Isaf), Alec Tompkins (Aberbran), Chris Davies (Capel Uchaf), Margaret Blake (Aberhonddu), Sophie Davies (Aberbran), Megan Richards (Aberaeron) , Myfanwy Roberts (Llanrwst), Judith Morris (Aberystwyth) a Tesni Elen Peers (Rhosllannerchrugog), ymlith yr enillwyr.

Wrth wneud y diolchiadau, cyfeiriodd cadeirydd y pwyllgor, Mrs Marilyn Jones, at Julie Robinson yn y gegin, Julie ac Evie Lewis, Angharad, Rhianwen a David a fu'n gweithredu fel ceidwaid y drysau, y cystadleuwyr, yr hyfforddwyr a'r gynulleidfa am eu cefnogaeth eleni eto.

The 2023 Trallong Eisteddfod took place on the first weekend of November in Maescar Hall, Sennybridge and was again a great success. Nine excellent soloists battled it out in the Champion Solo competition – the eventual winner being Barry Powell from Llanfihangel Y Creuddyn, a new competitor on this particular stage. Second Prize was awarded to Robert Jenkins of Llanfihangel Yr Arth, another new competitor. The Male Solo was won by Gwyn Morris from Cardigan, yet another new competitor at this event. It was pleasing to see regular competitors such as Jennifer Drew Parry, Efan Williams, Sophie Davies, Ann Watkins, David Maybury, Maria Evans, Dyfed Watkins, Angharad Jones, Gerwyn Rhys, Emyr Evans, Marc Williams and Sian Norgate among the evening winners.
We were delighted that Aberhonddu Male Voice Choir were able to join us, as they had had a busy day performing at our MP's wedding earlier in the day.

In the Children's classes the winner of the Mrs Mary Price trophy for the competitor showing the most potential in the local classes was Carys Lewis, Llwyntew, competing for the very first time – well done Carys.
The Mr. Alec Tompkins Perpetual Miniature Chair for the competitor showing the most potential in the open classes was won by Elan Mabbutt of Aberystwyth, a regular competitor for a number of years.
The Mrs. Margaret Rees Perpetual Shield for the instrumental solo 12 years and under was won by Ed Edwards of Llandrindod Wells.

Our adjudicators were Mr. Alistair O'Mahoney of Neath (music) and Miss Ruth Lloyd of Llanilltyd Fawr, originally from Llanwrtyd Wells, who adjudicated the stage recitation classes in addition to the senior literature classes. These latter classes were very well supported, and she remarked that it had taken her two whole days just to read through the entries.
The Children's Art and Literature classes were judged by Mrs. Tracey Havard of Defynnog, who made encouraging and constructive suggestions for future competitions.
The Presidents for the day were Mrs. Elin Mabbutt of Aberystwyth and Mr. Gareth Wyn-Thomas of Capel Hendre. Both gave interesting addresses with much food for thought. Our very talented accompanists this year were Mrs. Bethan Thomas of Crossgates and Miss Rhiannon Pritchard of Cardiff. This was Rhiannon's first visit to us and she was presented with a large number of challenging copies to play at first sight.
The conductors were Mrs. Elaine Pye of Trallong, Mrs. Mary Hodges of Cardiff, Mrs. Bethan Price of Defynnog, Mr. Marc Williams of Sennybridge and Mr. Dyfed Watkins of Trecastle – they all did an amazing job in keeping the competitions flowing.

The champion solo 18 to 30 years Perpetual Cup given by the family of the late Mrs. Hyral Thomas in her memory was won by Sophie Davies of Aberbran.
Other prize-winners in the children's stage items included Lowri and Ffion Astington (Llanfihangel-Nant-Bran), Jake and Ryan Morgan (Heol Senni), Evie Lewis (Llwyntew) and Ioan Mabbutt (Aberystwyth).
Winners in the children's Art and Literature classes included Ffion & Lowri Astington, Ffion Thomas (Llandrindod Wells), and Eva May, Betsan, Neila, Lexi, Molly, A.L., Jasper, E.V.M, Emily, Mair and Holly all pupils of Ysgol y Mynydd Du in Talgarth.
Winners of the Senior Literature classes included John Edwards (Brecon), Jayne Evans (Lower Chapel), Alec Tompkins (Aberbran), Chris Davies (Upper Chapel), Margaret Blake (Brecon), Sophie Davies (Aberbran), Megan Richards (Aberaeron), Myfanwy Roberts (Llanrwst), Judith Morris (Aberystwyth) and Tesni Elen Peers (Rhosllanerchrugog),
In her vote of thanks, the chairman of the committee, Mrs. Marilyn Jones, mentioned Julie Robinson in the kitchen, Julie and Evie Lewis, Angharad, Rhianwen and David who acted as door-keepers, the competitors, trainers and the audience for their support again this year.